# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 18
RHAGFYR 2008

Ar y Sul cyntaf o Ragfyr y llynedd efallai i chi gofio fel y daeth y brawd Gwenallt Rees, Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru, atom i sôn am y posibilrwydd o efeillio gydag eglwys yn Lesotho. Bu Gwenallt a'i briod Non yn weithgar iawn yn ddiweddar yn magu cysylltiadau gydag egwlysi yno ac o ganlyniad y mae sawl un o eglwysi'r Bedyddwyr yng Nghymru bellach wedi eu gefeillio ag eglwysi yn Lesotho. Pan ddaeth Gwenallt atom fe soniodd am y posibilrwydd o efeillio gydag eglwys o'r enw Ebenezer, lle yr oedd gwraig o'r enw y Pachedig Merriam Fotho yn gwasanaethu. Yn dilyn yr ymweliad cychwynnol hwnnw gan Gwenallt buom mewn cysylltiad â Merriam a chyfnewidiwyd un neges e-bost. Yna ym mis Tachwedd eleni fe aeth Gwenallt a Non allan i Lesotho gan ddwyn pecyn yn cynnwys cyfarchion Bethel a Horeb i Merriam a'i heglwysi. Rydym ninnau bellach wedi derbyn pecyn yn ôl oddi wrth Merriam a'u heglwysi. Felly dyma rannu rhai o'r manylion a gawsom ganddi yn ei chyfarchion.

Y mae Merriam yn 59 mlwydd oed ac yn briod a chanddi dri o blant, sef dwy ferch sydd yn efeilliaid ac un mab. Hi yw'r ail wraig i gael ei hordeinio gan yr eglwys yno. Mae ganddi **2,000** o aelodau mewn un brif eglwys ("mainstation") a chwech o eglwysi llai ("outstations"). Ymhob un o'r eglwysi llai y mae yna "efengylydd" sydd yn gwneud gwaith bugeiliol. Ar y Sul fe fydd Merriam yn cynnal gwasanaethu ynghyd ag astudiaethau Beiblaidd. Unwaith bob tri mis fe fydd hi'n ymweld â'r eglwysi llai ac yn bedyddio, gweinyddu priodasau a'r cymun. Tu fewn i'r eglwys y mae pob math o grwpiau eglwysig sydd yn hynod weithgar, sef Undeb y Mamau; Undeb y Dynion; Yr Ysgol Sul; Grŵp Ieuenctid ac y mae yna raglen arbennig ar gyfer merched nad sydd yn aelodau o Undeb y Mamau.

Un o'r problemau mwyaf sydd yn wynebu'r gymuned yno yw'r afiechyd a achosir gan y firws HIV, sef AIDS. Dywed Merriam yn ei llythyr bod pobl yn marw yn sgîl yr afiechyd hwn ac yn arbennig felly y rhieni ifainc. Y mae yna lawer o blant felly sydd wedi colli o leiaf un rhiant. Un o'r pethau mae ieuenctid yr eglwys wedi bod yn ei wneud yw plannu llysiau ar gyfer y plant amddifad oherwydd nid oes gan lawer ohonynt ddim i'w fwyta. Adeg y Nadolig y mae aelodau'r eglwys yn casglu dillad, teganau a bwyd i'w dosbarthu ymhlith y llai ffodus: y plant amddifad, yr anabl a'r henoed. Mae Merriam wedi anfon sawl llun hefyd : rhai ohoni hi a'i theulu, yr henoed, llun o'r plant amddifad a llun o ddwy eglwys. Mawr obeithiaf y bydd modd rhoi'r lluniau ar wefan Trefeurig er mwyn i bawb eu gweld.

Diolchwn am y cyswllt rhyngom â Merriam a'i heglwysi yn Lesotho a mawr obeithiwn y bydd y cyswllt hwn yn fodd i gyfoethogi ac i gynorthwyo ein gilydd. Bydded i ninnau hefyd ynghanol ein holl baratoadau ar gyfer Gŵyl y Geni eleni gofio am y rhai hynny sydd yn llai ffodus na ni a bod yn barod, fel Merriam a'i phraidd, i ymateb i anghenion cyd-ddyn mewn ysbryd o haelioni a chariad.

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

**CALENDR MIS RHAGFYR 2008**

| **Cyhoeddwr y Mis** | **Mervyn Hughes** | |
|---|---|---|
| 7 Rhagfyr 10.30<br>2.30 | Clwb Sul<br>Oedfa Gymun: Gweinidog | Y cymun yng ngofal Sue Hughes |
| 14 Rhagfyr 10.30yb | Oedfa'r Garol a'r Gair: Gweinidog. | |
| 21 Rhagfyr 10.30yb<br>2.00yp | Clwb Sul<br>Oedfa Nadolig y plant | |
| 25 Rhagfyr 7.30yb. | Oedfa'r Nadolig: Gweinidog | |
| 28 Rhagfyr 10.30yb | Oedfa ddiwedd blwyddyn: Gweinidog | |
| 4 Ionawr 2009 2.30yp | Oedfa gymun: Gweinidog | Y cymun yng ngofal Rhiannon Humphreys & Carwen Fychan |

**I'CH DYDDIADUR**
**17 Rhagfyr** : Dydd Mercher Cymdeithas Bethel : Taith o gwmpas y Llyfrgell Genedlaethol. Cinio am 12.30 ym Mhen Dinas. Angen cadarnhau y nifer sy'n dod rhyw wythnos o flaen llaw. Croeso i aelodau Horeb
**10 & 17 Rhagfyr :** Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
**(D.S. Horeb yn gyfrifol am weini ar y 10fed)**
**18 Rhagfyr :** Nos Iau Plygain dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys Sant Ioan am 7.30
Byddai Wendy Reynolds yn falch o glywed gan rai sydd yn fodlon cyfrannu mins peis neu gacennau
**30 Rhagfyr :** Nos Fawrth Cwrdd gweddi misol yn festri Horeb 7.30
**5 Ionawr** : Cinio Cymorth Cristnogol : Eglwys San Paul 12.00-1.30 (Eglwys Gwenffrewi yn gyfrifol)
**Rhaghysbyseb** : 5 Gorffennaf 2009 : Byddwn yn cynnal oedfa yng nghapel Salem, Llanbedr, sef y capel a anfarwolwyd gan Iun Curnow Vosper. Cawn hanes y llun a'r capel yn ystod ein hymweliad.

**LLOFFION**
**Llongyfarchiadau :**
i Rhys, Elin, Sioned, Gwenno a Sion ar eu rhan yng nghynhyrchiad "Agi Agi" gan Ysgol Penweddig.
i Mared ar ennill y drydedd wobr yn yr Ŵyl Gerdd Dant am ganu'r delyn.

**Dymuniadau Gorau** i Mrs Megan Evans sydd yn yr Ysbyty yn Nhregaron.

**Gwellhad Buan** i Llinos sydd wedi derbyn triniaeth yn yr Ysbyty.

**Dymuniadau Nadolig :** Os hoffech anfon cyfarchion nadolig at ein cyfeillion yn Tunisia a Lesotho, gweler y
cyfeiriadau isod:

- Sarah Garnes: ACT(Sarah Garnes), BP 62, 7100 El Kef, Tunisia.

(Cofiwch hefyd y mae Sarah yn dathlu ei phen-blwydd ar y 30 Rhagfyr.)

- Reverend Merriam Fotho, Masianokeng L.E.C., PO BOX 6, Mazenod 160 Lesotho.

**Cyfraniadau 2008**: Y mae'r Trysorydd yn awyddus i gau llyfrau'r eglwys yn brydlon ar y Sul olaf ym mis Rhagfyr ac fe fyddai yn gwerthfawrogi pe bai'r aelodau yn medru cwblhau eu cyfraniadau cyn gynted ag y bo modd.

**Croeso i'r Oedfaon** : Os nad ydych wedi bod mewn oedfa ers tro, beth am droi i fewn atom? Mae yna groeso cynnes yn eich disgwyl ac fe fyddem yn falch o'ch gweld bob amser.

